Cofnodion Cynhadledd Flynyddol 2008
Dydd Sadwrn 18 Hydref 2008
Ysgol Gyfun Glantaf, Caerdydd

Presennol:
Lynne Griffin, Lowri Mifsud, Dr Huw Thomas, Lynne Davies, Emma Hill, Alan Lewis, Emrys Wynne, Catrin Champion, David Williams, Cynghorydd Neil McEvoy, Eluned Press, Eirian Youngman, Catrin Stevens, Heini Gruffudd, Tim Pearce, Elin Maher, Michael Jones, Ethni Jones, Ceri Owen, Nerys Hurford.

Ymddiheuriadau:
Ben Jones, Alun Thomas, Gwawr Cordiner, Carys Gwyn, Sion Wynne, Dylan Jones

Cyfarfod Blynyddol
Dechreuodd y cyfarfod am 10 y bore.
Croeso gan y Cadeirydd – croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.
Ymddiheuriadau Nodwyd fod yr unigolion a nodir uchod wedi anfon eu ymddiheuriadau o flaen llaw.
Cytunwyd fod cofnodion y Cyfarfod Cenedlaethol diwethaf yn rhai cywir.
Uchafbwyntiau'r flwyddyn Cafwyd adroddiad byr gan y Swyddog Datblygu am rai o uchafbwyntiau'r flwyddyn. Un o'r prif ddatblygiadau ydoedd gwahoddiad i RhAG eistedd ar banel ymgynghorol Llywodraeth Cynulliad Cymru wrth iddynt fwrw ati i lunio'r stratgeaeth hir ddisgwyliedig ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg. Cyfeiriwyd hefyd at ddyfodiad y Mesur Teithio i Ddysgwyr a fyddai'n dod i rym ym mis Medi 2009. Pwysleiswyd bwysigrwydd y ddeddf a fyddai'n rhoi 'dyletswydd ar awdurdodau lleol i hybu mynediad at addysg Gymraeg.' Yn ystod mis Awst cafodd RhAG gyfle i gyfarfod y Dirprwy Brif Weinidog Ieuan Wyn Jones AC sydd hefyd a chyfrifoldeb dros drafnidiaeth. Cadarnhaodd IWJ fod gan Lywodraeth y Cynulliad reoliadau arbennig mewn lle pe na byddai awdurdodau lleol yn cydymffurfio a'r cymal Bydd yn rhan amlwg o gylch gorchwyl RhAG i sicrhau y bydd hynny'n digwydd ond i dynnu sylw'r Gweinidog at unrhyw achosion i'r gwrthwyneb.
Cyflwyno Anrheg i Elin Maher, cyn Swyddog Datblygu RhAG Cyflwynwyd anrheg i Elin ar ran y Pwyllgor Cenedlaethol er diolch a chydnabyddiaeth iddi am ei hymroddiad a'i gwaith arbennig yn ystod ei chyfnod fel Swyddog Datblygu cyflogedig cyntaf RhAG.
Cyflwyno Ceri Owen, Swyddog Datblygu newydd Cyflwynwyd Ceri Owen sef y Swyddog Datblygu newydd a benodwyd nôl ym mis Mai eleni. Bydd Ceri yn gweithio i adeiladu ar y cynnydd aruthrol sydd eisioes wedi'i wneud o ran ehangu cwmpas a phroffil RhAG yn genedlaethol dros y ddwy flynedd

diwethaf.

Adroddiad ar ddatblygiadau diweddar
Cyflwynodd y Swyddog Datblygu fraslun o sefyllfa gyfredol y siroedd gan gyfeirio at rai o'r prif faterion a gynhwyswyd mewn dogfen helaeth a ddosbarthwyd ymysg y mynychwyr.

Adroddiad y Trysorydd

- Cyflwynodd Catrin y fantolen.
- Nodwyd fod ffioedd aelodaeth yn parhau i fod yn isel ac fod angen rhoi blaenoriaeth i'r gwaith o gasglu tâl aelodaeth ymysg yr ysgolion ac ymhlith unigolion a theuluoedd.
- Pwysleisiodd hefyd fod angen i unrhyw un sy'n gwneud gwaith gwirfoddol dros y mudiad lenwi ffurflen gwaith mewn da er mwyn ei hawlio yn erbyn y grant. Mae'r daflen ar gael gan y Swyddog Datblgu i'r pwrpas hwn.
- Diolchwyd i Catrin am ei gwaith a'i thrylwyredd yn paratoi'r adroddiad ac am ei gwaith dros y flwyddyn a fu.

Ethol Swyddogion 2008/09
Cytunwyd ar drefn newydd y swyddogion ar gyfer eleni:
Cadeirydd: Eirian Youngman
Is-gadeirydd – Heini Gruffudd
Ysgrifennydd – Elin Maher
Is-ysgrifennydd – Lynne Griffin
Ysgrifennydd Cofnodion – Lynne Davies
Trysorydd – Alan Lewis
Swyddog Aelodaeth – Catrin Stevens
Swyddog Cysylltiadau Cyhoeddus – Tim Pearce

Diwygio cyfansoddiad RhAG
Rhoddwyd cynnig gerbron i ddiwygio geiriad y cymal cyntaf yn adran amcanion dogfen gyfansoddiadol RhAG. Eglurwyd mai bwriad hyn ydoedd i symleiddio a chrisialu amcanion RhAG er mwyn hwyluso'r broses o gofrestru'r mudiad fel elusen. Cytunwyd yn unfrydol ar y geiriad isod:

'Amcan y mudiad yw hyrwyddo addysg Gymraeg yng Nghymru fel ei bod yn hygyrch i bawb a'i mynno.'

Cyfarfodydd y Gweithgor Cenedlaethol
Cafwyd trafodaeth ynglyn ag effeithioldeb y ffurf a fabwysiadwyd yn ddiweddar i gynnal cyfarfodydd sef trwy system fideo gynadledda. Nodwyd fod hynny weithiau'n medru bod yn bur llafurus gan nad oedd y dechnoleg wastad yn ddibynadwy. Cytunwyd felly i roi cynnig ar strwythur newydd i gyfarfodydd y pwyllgor cenedlaethol sef i gyfarfod unwaith y mis ar ffurf cylchdaith a fyddai'n caniatau symud o ardal i ardal. Y gobaith yw y bydd hyn yn hwyluso'r drefn o rannu gwybodaeth a thrafod materion lleol a chenedlaethol. Nodwyd y byddai rhaid sicrhau fod mewnbwn gan gysylltiadau cenedlaethol yn parhau i ddigwydd yn gyson er mwyn sicrhau trosolwg cenedlaethol cywir o sefyllfa addysg Gymraeg.

Lleoliad Cynhadledd Flynyddol 2009
Cytunwyd i gynnal cynhadledd 2009 yn ardal Aberhonddu.

U.F.A
Dymunodd Michael Jones, RhAG Caerdydd dalu teyrnged i Mr Illtyd Lewis gynt o Gaerdydd yn dilyn ei farwolaeth diweddar. Bu'n gefnogwr selog o waith RhAG dros y blynyddoedd ac yn weithgar tu hwnt dros yr achos tra'n ysgrifennydd y mudiad rhwng 1992-96. Anfonwyd ein cydymdeimlad fel mudiad at y teulu yn eu

profedigaeth.
Cyflwyniad: **'Ail Ysgol Uwchadd Cymraeg i Abertawe: Gwireddu'r Freuddwyd'** Mr David Williams, Pennaeth Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe, Abertawe. Cafwyd cyflwyniad diddorol am hanes sefydlu'r ysgol hon bum mlynedd yn ôl ac am ei thwf a'i llwyddiant ysgubol byth er hynny. Diolchwyd iddo am fynychu'r gynhadledd a mynegwyd ein dymuniadau gorau i staff a disgyblion Ysgol Bryn Tawe i'r dyfodol.
Sesiwn drafod a chwestiynau o'r llawr – Dyfodol Addysg Gymraeg: Y Ffordd ymlaen Cafwyd fforwm agored i'r mynychwyr drafod rhai materion blaenllaw a oedd yn codi ledled y siroedd. Roedd nifer o'r materion hyn yn bethau a grybwyllwyd eisioes yn yr adroddiad ar sefyllfa'r siroedd a ddosbarthwyd ymhlith y mynychwr.
Diweddwyd y cyfarfod am 1 o'r gloch gyda chinio bwffe. **Diolchwyd i bawb am fynychu gan edrych ymlaen at gyfarfodydd y dyfodol.**